



Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ar y Cyd

**Adroddiad Monitro Blynyddol a
Data Cydraddoldeb**

Mehefin 2017

Cadw De Cymru'n Ddiogel

Rhagair	2
Cyflwyniad	3
Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus	4
A. Proffil Heddlu De Cymru a'i gymunedau	5
B. Amcanion Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ar y Cyd 2015 - 2018	6
Data Cydraddoldeb	18
1. Trosedd Casineb	20
2. Stopio a Chwilio	24
3. Hygyrchedd	28
4. Anghenion Amrywiol yn y Ddalfa	29
5. Trais yn erbyn Menywod a Merched	33
6. Gweithlu Cynrychioliadol	47
F. Cysylltiadau ac Adborth	98

Mae'r wybodaeth hon ar gael mewn fformatau amgen ar gais:

Ffôn: 01656-655555 (estyniad 70123)

E-bost: hr.helpdesk@south-wales.pnn.police.uk

Rhagair


Cael eich trin yn deg mewn modd anwahaniaethol yw'r hawl sylfaenol sydd gan bawb ac y mae pawb yn ei haeddu. I Heddlu De Cymru mae o'r pwys pennaf a dyna pam, wrth ddarparu ein gwasanaethau plismona, rydym yn ymrwymedig i wneud popeth o fewn ein gallu er mwyn sicrhau ein bod yn diwallu anghenion ac yn bodloni disgwyliadau'r nifer fawr o gymunedau amrywiol yn ein hardal.

Mae Cynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddu ar gyfer Heddlu De Cymru yn nodi'r blaenoriaethau strategol allweddol, sy'n cynnwys hyrwyddo cydraddoldeb a thegwch yn ein cymunedau ac yn y gweithle. Rydym yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb ym mhopeth a wnawn er mwyn sicrhau ei fod yn dod yn rhan o'n gwasanaeth bob dydd.

Ein diben yw 'Cadw De Cymru'n Ddiogel' a'n gweledigaeth yw sicrhau mai Heddlu De Cymru yw 'y gorau am ddeall ac ymateb i anghenion ein cymunedau'. Gwyddom na ellir gwneud hyn heb flaenoriaethu cydraddoldeb ac amrywiaeth a gweithio i gyflawni canlyniadau gwirioneddol.

Rydym yn cydnabod bod llawer mwy i'w wneud bob amser er mwyn i bobl yn Ne Cymru allu byw yn rhydd o wahaniaethu, aflonyddu, anghydraddoldeb ac anfantais. Yr amcanion yn ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ar y Cyd yw ein blaenoriaethau presennol i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r her hon yn barhaus.

Mae hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol yn ganolog i waith Heddlu De Cymru ac rydym yn ymrwymedig ar y cyd i sicrhau, wrth ddarparu ein gwasanaethau plismona, ein bod yn ymrwymedig i wneud popeth o fewn ein gallu er mwyn sicrhau ein bod yn diwallu anghenion ac yn bodloni disgwyliadau'r nifer fawr o gymunedau amrywiol.



Y Gwir Anrh Alun Michael
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

Peter Vaughan C.St.J, QPM
Prif Gwnstabl

Mae'n ddwy flynedd ers cyflwyno Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ar y Cyd Heddlu De Cymru. Rydym yn parhau i wneud cynnydd sylweddol yn erbyn ein chwe amcan cydraddoldeb. Mae'r amcanion hefyd wedi'u hymgorffori'n gadarn iawn yn yr Heddlu a Thîm y Comisiynydd, gyda pharhad strwythur cofnodi cydraddoldeb sy'n monitro datblygiadau yn erbyn y cynllun ac yn sicrhau bod adrannau yn gyfrifol am gyflawni eu hamcanion perthnasol.

Yn fyr, mae ein llwyddiant mewn perthynas â'r chwe amcan yn cynnwys: gweithio gyda grwpiau anodd eu cyrraedd er mwyn gwranddo ar ffyrdd y byddent yn hoffi rhoi gwybod am ddiwyddiad; cynnydd yn nifer yr arestiadau sy'n deillio o stopio a chwilio i 13.9% a'r gyfradd canlyniadau cadarnhaol gyffredinol nawr yn 19.9%; sefydlu Gweithgor Hygyrchedd; canolbwyntio ar blant yn nalfa yr heddlu a monitro perfformiad mewn perthynas â throsglwyddo ar ôl cyhuddiad i lety awdurdod lleol a phob plentyn a gedwir dros nos; cyflawni'r 'achrediad Rhuban Gwyn' cyntaf erioed ar gyfer yr Heddlu a Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Mae'r adroddiad hefyd yn cyflwyno llawer o ddata i ddangos sut rydym yn gweithio tuag at ein Dyletswyddau Cydraddoldeb. Nid ydym yn hunanfodlon ac rydym yn awyddus i fod mor dryloyw â phosibl, er mwyn dangos cymhlethdodau ein gwaith a nodi pa mor bwysig ydyw i ddangos ein hymrwymiad i gydraddoldeb.

Cynllun tair blynedd yw'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ar y Cyd a byddwn yn datblygu ein camau gweithredu ymhellach dros y flwyddyn nesaf er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau dymunol. Mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol yn hollbwysig i Heddlu De Cymru a byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu'r arweinyddiaeth a'r oruchwyliaeth sy'n ofynnol i gyflawni cynnydd gwirioneddol.

Dyletswyddau Penodol Deddf Cydraddoldeb 2010

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (rheoliadau'r Dyletswyddau Penodol yn y DU) mae'n ofynnol i ni gyhoeddi gwybodaeth i ddangos sut rydym yn cydymffurfio â'r dyletswyddau i wneud y canlynol:

- a) dileu gwahaniaethu ac aflonyddu
- b) datblygu cyfle cyfartal
- c) meithrin cysylltiadau da rhwng pobl â nodweddion gwarchoddedig gwahanol.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio nodweddion gwarchoddedig fel a ganlyn:

- Oedran
- Anabledd
- Rhyw
- Ailbennu Rhywedd
- Priodas neu bartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd neu famolaeth
- Hil
- Crefydd neu Gred
- Cyfeiriadedd rhywiol

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni adrodd yn flynyddol ar gynnydd yn erbyn ein hamcanion cydraddoldeb. Felly, mae'r adroddiad hwn yn amlinellu cynnydd yn erbyn y chwe amcan cydraddoldeb yn ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ar y Cyd, ac yn darparu amrywiaeth o ddata sy'n gysylltiedig â chydaddoldeb er mwyn cefnogi'r amcanion yn ogystal â'r gwaith arall a wnawn ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

A. Proffil Heddlu De Cymru a'i gymunedau

Rydym yn darparu gwasanaeth 24 awr, bob diwrnod o'r flwyddyn i sicrhau ein bod bob amser yn hygyrch ac yn gallu darparu gwasanaeth sy'n diwallu anghenion ein cymunedau.

Mae ein hardal blismona yn pontio ffiniau saith awdurdod unedol, sef Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Abertawe, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Castell-nedd Port Talbot a Bro Morgannwg. Mae'r ardal blismona wedi'i rhannu'n bedair Uned Reoli Sylfaenol sy'n rheoli plismona ar lefel leol ac mae'n cynnwys 42% o boblogaeth Cymru.

O fewn ein hardal blismona sy'n cynnwys 1,317,325, 651 o drigolion^[1], mae 49.3% wedi nodi eu bod yn ddynion a 50.7% wedi nodi eu bod yn ferched. Yn ogystal â'r 1,317,325 o drigolion, rydym yn cydnabod bod yr ardal blismona'n cynnwys nifer fawr o fyfyrwyr Prifysgol, amcangyfrif o 92,700^[2], na chânt eu cynnwys yn nata'r cyfrifiad. Mae de Cymru hefyd yn denu sawl miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn, a Chanolfan Mileniwm Cymru yng Nghaerdydd yw'r atyniad twristiaeth mwyaf poblogaidd yng Nghymru.

Mae dosbarthiad oedran y boblogaeth yn ne Cymru yn gymharol gyfartal, gyda 31.2% yn cynrychioli'r grŵp oedran o dan 25, 45.3% yn cynrychioli'r grŵp oedran 25-59 a 23.5% yn cynrychioli'r grŵp oedran 60+. Nododd 18.4% fod ganddynt rywfaent o Gymraeg llafar neu ysgrifenedig. Dangosodd data Cyfrifiad 2011 fod 22.9% o'r trigolion o fewn yr ardal blismona wedi nodi bod ganddynt salwch hirdymor ac anabledd sy'n effeithio ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Dangosodd data'r Cyfrifiad fod 6.6% o'r boblogaeth yn ne Cymru wedi nodi bod eu cefndir ethnig yn perthyn i leiafrif ethnig, gyda 15.3% o'r boblogaeth yng Nghaerdydd a 4.5% yn Abertawe yn nodi bod ganddynt gefndir lleiafrifoedd ethnig.

Nododd y gyfran uchaf o drigolion (53.8%) eu bod yn Gristnogion a nododd 34.9% nad oedd ganddynt unrhyw grefydd. Nododd nifer fach eu bod yn Fwdhaidd, Hindŵaidd, Iddewig, Mwslimaidd a Sikh.

Nid oes data ystadegol ar gael i'r cyhoedd ar y nifer wirioneddol o bobl yn ne Cymru sy'n nodi eu bod yn drawsrywiol, sy'n cynnwys pobl drawsryweddol a thrawswisgwyr, gan na chaiff gwybodaeth ei chasglu ar hyn o bryd drwy'r Cyfrifiad nac unrhyw gyfrif arall o'r boblogaeth. Mae Heddlu De Cymru yn cydweithio'n agos â Trawsrywiol Cymru, TAWE Butterflies, MTF Cymru a Chymdeithas Trawsrywiol Genedlaethol yr Heddlu.

Gan nad yw data'r Cyfrifiad yn gofyn i drigolion nodi eu cyfeiriadedd rhywiol, ni cheir data caled ar nifer y bobl hoyw, lesbiaid a deurywiol yn y DU. Fodd bynnag, mae Actiwariad y Llywodraeth yn amcangyfrif bod 6% o'r boblogaeth yn hoyw, lesbiaid neu ddeurywiol^[4].

[1] Gwefan ONS. Estimates for England and Wales Mid 2016 (Cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2017)

[2] Data Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch 2015/16

[4] Stonewall Cymru

B. Amcanion Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ar y Cyd 2015 - 2018

Amcan 1 - (Trosedd Casineb)

Byddwn yn gweithio i ddeall profiad dioddefwyr o droseddau casineb ac ymgysylltu â'r rhai sy'n llai tebygol o roi gwybod am droseddau o'r fath er mwyn nodi rhwystrau a'u dileu. Bydd hyn yn sicrhau bodddhad dioddefwyr ac yn helpu i leihau erledigaeth sy'n digwydd dro ar ôl tro. Gan weithio gyda'n partneriaid, byddwn yn nodi achosion risg uchel o aflonyddu sy'n gysylltiedig â chasineb ac yn annog ymyrraeth gadarnhaol a chynnar drwy broses amlasiantaeth.

Diweddariad ar Gynnydd:

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i ddatblygu'r ffordd rydym yn cyfathrebu â'n cymunedau mewn perthynas â rhoi gwybod am droseddau casineb. Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r heddluoedd eraill yng Nghymru a gyda'n partneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector er mwyn sicrhau y caiff ein hymdrechion eu cydlynu a'u bod yn gyson, gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth gyhoeddus o droseddau casineb a gwella eu hyder i roi gwybod amdanynt i'r heddlu ac asiantaethau trydydd sector. Un o'r cyfleoedd allweddol ar gyfer cyhoeddusurwydd oedd Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb ym mis Hydref 2016.

Yn y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweld ffocws sylweddol ar droseddau casineb a chydlyniant cymunedol, yn rhannol o ganlyniad i ganlyniad Refferendwm yr UE a phwysau mewnfudo ledled y DU, a hefyd o ganlyniad i sawl digwyddiad terfysgol ar brif dir y DU; mae pob un o'r rhain wedi rhoi straen ar ein cymunedau ac wedi achosi rhai tensiynau. Rydym wedi monitro'r effaith ar droseddau casineb yn agos iawn a chafwyd cynnydd dros dro yn nifer y troseddau a'r digwyddiadau casineb, gan adlewyrchu'r darlun cenedlaethol. Mae ein Swyddogion Troseddau Casineb ac Ymgysylltu â'r Gymuned, ynghyd â'n holl swyddogion a thimau cymdogaethau, wedi cynnal ymgysylltiad agos â'n cymunedau, gan fonitro tensiynau a rhoi sicrwydd. Mae ein cymunedau wedi ac yn dal i fod yn oddefgar ac yn wydn.

Mae Swyddogion Troseddau Casineb wedi ymgysylltu'n barhaus â chymunedau er mwyn annog dealltwriaeth o droseddau casineb ac annog pobl i roi gwybod amdanynt; cynhaliwyd nifer fawr o ddigwyddiadau ymgysylltu er mwyn annog pobl i roi gwybod am droseddau ac er mwyn atgyfnerthu negeseuon cadarnhaol. Rydym wedi gweithio gyda grwpiau cymunedol penodol a grwpiau anodd eu cyrraedd er mwyn gwrandao ar ffyrdd y byddent yn hoffi cofnodi, gan sicrhau ein bod yn gwneud ein gorau i ddiwallu eu hanghenion a'u dymuniadau, ac rydym wedi llwyddo i gyflawni lefel uwch o gofnodi yn gyffredinol.

Mae ymyrryd yn gynnar wrth ymateb i droseddau casineb yn hollbwysig i sicrhau bod y rhai sy'n cyflawni troseddau o'r fath yn cael eu nodi ac yr ymdrinnir â hwy a bod dioddefwyr yn cael cymorth priodol. Felly, mae pwysleisio pwysigrwydd nodi'r agwedd casineb ar ddigwyddiad a'r effaith y mae hyn yn ei chael nid yn unig ar yr unigolyn a'i deulu ond ar y gymuned ehangach, wedi bod yn elfen allweddol o'r hyfforddiant. Yn y dyfodol, byddwn yn parhau i weithio o fewn y fframwaith a'r amcanion allweddol a nodir yn ein Cynllun yr Heddlu

a Gostwng Troseddu 2017-21, ac amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Amcan 2 - (Stopio a Chwilio)

Byddwn yn datblygu ein dull o stopio a chwilio er mwyn sicrhau y caiff y pwerau eu defnyddio'n deg ac, yn benodol, y caiff anghymesuredd ethnig ei herio'n barhaus a/neu ei leihau.

Diweddariad ar Gynnydd:

Mae nifer yr achosion o stopio a chwilio a gynhelir gan yr heddlu yn dal i ostwng. Cafwyd gostyngiad o 27% yn nifer yr achosion o stopio a chwilio a gynhaliwyd yn 2016/17, o gymharu â 2015/2016. Mae hyn yn cyfateb i 7188 o achosion o stopio a chwilio o gymharu â 5252 yn 2016/17. Stopio a chwilio yw un o'r dulliau niferus y mae swyddogion yn eu hystyried pan fyddant ar batrôl er mwyn cadw'r cymunedau'n ddiogel.

Mae gan yr Heddlu brosesau clir ar waith er mwyn craffu ar gofnodion stopio a chwilio i sicrhau bod pwerau'n cael eu defnyddio'n gyfreithlon a phan fydd angen. Caiff yr holl gofnodion eu harchwilio gan oruchwylwyr lle bydd prosesau hapsamplu ffurfiol ar waith yn lleol. Caiff y broses hon ei chefnogi gan Grŵp Cyfranogiad Cymunedol yr Heddlu a Throseddau sy'n cynnal proses graffu annibynnol o'r cofnodion. Eir i'r afael ag unrhyw wersi a ddysgir yng Ngrŵp Stopio a Chwilio'r Heddlu a'r Bwrdd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol.

Mae'r arestiadau sy'n deillio o achosion o stopio a chwilio wedi cynyddu i 13.9% ac mae'r gyfradd canlyniadau cadarnhaol cyffredinol bellach yn 19.9%. Roedd bron 80% o'r bobl a gafodd eu stopio a'u chwilio yn hysbys i'r heddlu gyda'r un gyfran yn berthnasol i bobl wyn ac aelodau o'r gymuned pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Yn ystod y cyfnod adrodd diwethaf, roedd person du bedair gwaith yn fwy tebygol o gael eu stopio a'u chwilio na pherson gwyn, ond mae hyn yn seiliedig ar nifer gymharol isel o ddata'r boblogaeth. Mae'r heddlu wedi adolygu'r holl achosion o stopio a chwilio oedd yn cynnwys dynion duon ac mae'n fodlon bod digon o sail yn bodoli i gyfiawnhau'r chwilio. Mae'r heddlu wedi wynebu poblogaeth dros dro ar ffurf grwpiau troseddau cyfundrefnol sy'n targedu ardal de Cymru, yn bennaf yn cynnwys dynion duon. Roedd y chwiliadau a gynhaliwyd yn gyfiawn ac yn gymesur, a chawsant eu croesawu a'u chefnogi gan grwpiau lleiafrifol gan ei fod yn eu cadw'n ddiogel yn eu cymunedau.

Mae cynllun cysgodi'r heddlu (patrol along) wedi'i adfywio ac o ganlyniad, cafwyd cynnydd yn aelodau'r cyhoedd sy'n gofyn am gael cyd-fynd â swyddogion ar ddyletswydd er mwyn arsylwi'r pwerau stopio a chwilio a ddefnyddir. Mae cyfarpar fideo a wisgir ar y corff wrthi'n cael ei ddsbarthu i'r holl staff gweithredol a fydd yn golygu bod yr heddlu'n fwy tryloyw yn y ffordd y mae'n stopio a chwilio. Bydd aelodau o'r cyhoedd a grwpiau cydlyniant cymunedol yn gallu gweld fideos o'r fath yn amodol ar y Ddeddf Diogelu Data.

Yn ystod y flwyddyn, rydym hefyd wedi gweithio er mwyn sicrhau bod y wybodaeth am stopio a chwilio ar ein gwefan yn fwy hygyrch ac rydym yn parhau i ddatblygu ffyrdd y gallwn gyfathrebu'n well â'n cymunedau amrywiol am eu hawliau stopio a chwilio. Cynhelir cyfres o gyflwyniadau stopio a chwilio i grwpiau cydlyniant cymunedol yn ystod y cyfnod adrodd nesaf er mwyn gwella hyder y cyhoedd yn y ffordd y mae swyddogion yr heddlu yn defnyddio pwerau stopio a chwilio.

Amcan 3 - (Hygyrchedd)

Byddwn yn ei gwneud hi'n haws i'r cyhoedd gyfathrebu â'r heddlu, yn arbennig y rhai ag anghenion mynediad penodol, pobl â nam corfforol neu nam ar y synhwyrau a phobl ag anghenion llythrennedd neu iaith neu anghenion diwylliannol, gan gynnwys plant.

Diweddariad ar Gynnydd:

Sefydlwyd gweithgor Hygyrchedd er mwyn datblygu'r amcan hwn ac mae hyn yn dwyn sawl adran wahanol yn Heddlu De Cymru ynghyd i rannu cyfrifoldebau. Ymysg y trafodaethau grŵp a'r camau gweithredu yn ystod y flwyddyn roedd ystyried yr angen i ddatblygu deunyddiau cyfathrebu a mentrau ar gyfer pobl ifanc, yr angen i ddatblygu ein hopsiynau cyfathrebu ar gyfer pobl F/fyddar ac ystyried hyrwyddo ein menter 'Cadw'n Ddiogel Cymru' ymhellach, yn cynnwys cyflwyno Mannau Cadw'n Ddiogel.

Sefydlwyd gweithgor er mwyn datblygu ein gwaith gyda'r gymuned Fyddar ac rydym wrthi'n ystyried llwyddiant Heddlu Caerlŷr gyda'u cynllun PLOD. Megis dechrau y mae'r gwaith ond rydym yn parhau i weithio tuag at ddatblygu ein hopsiynau o ran cyfathrebu a darparu gwybodaeth i Bobl Fyddar.

Mae ein cynllun 'Cadw'n Ddiogel Cymru' wedi cael ei hyrwyddo yn ystod y flwyddyn. Mae'r cynllun hwn yn galluogi pobl anabl ag anghenion cyfathrebu i gofrestru â Heddlu De Cymru gan roi gwybod i ni am eu hanghenion cyfathrebu. Mae hyn yn sicrhau, pan fyddwn yn cael unrhyw gysylltiad â nhw, bod swyddogion a staff y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus yn gwybod beth yw'r ffordd orau o ymateb a chynnig cymorth priodol. Mae'r cynllun hefyd yn rhoi rhif penodol i'r sawl sydd wedi'i gofrestru ei ddefnyddio i'n ffonio. Mae'r cynllun yn llwyddiant mawr, gyda mwy na 1300 o bobl wedi'u cofrestru ar hyn o bryd.

Ym mis Rhagfyr 2016, ar ôl gweithio gydag Army Wales, lanswyd Cadw'n Ddiogel Cymru ar gyfer Cyn-filwyr. Mae'r cynllun hwn yn cefnogi Cynfilwyr y gall fod ganddynt Anabledd, Anhwylder Straen wedi Trawma, Salwch Meddwl neu Dementia. Mae'r cynllun yn gweithio yn union yr un ffordd â Cadw'n Ddiogel Cymru ac mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn ac EUB Tywysog Henry o Gymru wedi cael gwybod am y cynllun ac yn cydnabod y gwaith.

Rydym bellach yn ystyried cyflwyno Llefydd Cadw'n Ddiogel yn 2017 lle y bydd safleoedd busnes yn arddangos logo Cadw'n Ddiogel Cymru felly os bydd aelod o'n cymuned sydd wedi'i gofrestru ar y cynllun yn mynd ar goll neu'n destun Trosedd Casineb, gall fynd i un o'r safleoedd i ofyn am gymorth. Caiff y sawl sy'n cofrestru i arddangos y logo eu haddysgu ar beth yw cynllun Cadw'n Ddiogel Cymru a sut i gysylltu â Heddlu De Cymru.

Mae Heddlu De Cymru hefyd yn datblygu rhaglen o newid a gaiff ei rhannu'n dair prif faes. O dan bob maes o'r rhaglen mae'r ymrwymiad i ddatblygu a gwella ein sefydliad. Yr ardaloedd yw

- moderneiddio pwyntiau mynediad
- rheoli galw, defnydd a datrysiad
- gwella perfformiad.

Ar gyfer ein cymunedau, mae hyn yn golygu y gallwn ddarparu gwasanaeth gwell i'r cyhoedd a sicrhau ein bod yn fwy hygyrch. Mae'r broses sydd ar y gweill ar gyfer ein system ymateb

llais rhyngweithiol yn golygu y bydd aelod o'r cyhoedd yn gallu naill ai gyrraedd y lleoliad gofynnol ar y pwynt cyswllt cyntaf heb unrhyw gymorth dynol neu'n gallu cyrraedd lleoliad datrysiad yn gyflymach gyda chymorth dynol. Mae'r newidiadau i'n system ffôn hefyd yn galluogi'r canlynol:

- Anfon negeseuon testun at aelodau o'r cyhoedd
- Gallu ymgorffori sgwrs dros y we, cyfryngau cymdeithasol ac e-bostio'r system rheoli a gorchymyn.

Eisoes fel rhan o'r prosiect, rydym wedi gwneud gwelliannau gwych i newid y ffordd rydym yn monitro risg, yn ymateb i risg ac yn lliniaru risg drwy gyfryngau cymdeithasol. Mae'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus bellach yn monitro holl gyfrifon swyddogol Heddlu De Cymru drwy ein gwasanaeth switsfwrdd presennol. Mae hyn yn golygu y gall aelodau o'n cymuned sy'n anodd eu cyrraedd, y mae'n well ganddynt gyswllt digidol neu sy'n amharod i ffonio ddefnyddio'r un gwasanaethau drwy ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. O fewn 30 diwrnod cyntaf monitro llawn yn y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus, cafwyd mwy na 1000 o gysylltiadau drwy gyfryngau cymdeithasol. Mae'r cysyniad hwn o newid sianeli yn golygu bod yr heddlu yn llawer mwy hygyrch nag erioed o'r blaen.

Amcan 4 - (Anghenion Amrywiol yn y Ddalfa)

Byddwn yn asesu anghenion pobl sy'n agored i niwed a'r rhai ag anghenion penodol sydd yn nalfa'r heddlu ac yn gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r anghenion hynny a nodir e.e. anghenion merched, plant, pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a phobl â chyflyrau iechyd meddwl neu anableddau corfforol neu synhwyraidd neu anableddau dysgu.

Diweddariad ar Gynnydd:

Rydym yn parhau i weithio tuag at wella perfformiad ym mhob agwedd ar yr amcan hwn.

Mae plant yn nalfa'r heddlu yn faes ffocws allweddol ac rydym bellach yn monitro perfformiad mewn perthynas â throsglwyddo ar ôl cyhuddiad i lety awdurdod lleol a phob plentyn a gedwir dros nos. Mae argaeledd llety addas (ar ôl cyhuddiad) yn fater anodd o hyd. Mae staff dalfeydd yn wynebu anawsterau o ran cael cyfeiriadau mechnïaeth addas, llety anniogel a diogel. Fodd bynnag, mae'r tueddiad blynyddol yn dangos gostyngiad yn nifer y plant a gaiff eu harestio a'r nifer a gedwir dros nos (rhwng 2300 - 0700). Mae ffocws dyddiol drwy logiau Arolygwyr Efydd, monitro misol mewn cyfarfodydd dalfeydd diogel ac effeithiol a phroses uwchgyfeirio yn parhau i gyfrannu at y gostyngiad hwn.

Caiff data eu rhannu â Llywodraeth Cymru a Byrddau Diogelu Plant. Mae cyfarfodydd gweithgor yn parhau i gael eu cynnal rhwng yr heddlu a'r saith awdurdod lleol er mwyn mynd i'r afael ag achosion a phryderon penodol o bob ochr.

Mae'r ffaith nad oes Oedolion Priodol ar gael yn genedlaethol, yn enwedig y tu allan i oriau, yn cael ei hystyried gan y Coleg Plismona ac mae hyn wedi cael ei godi fel pryder gyda'r Arweinydd Dalfeydd Cenedlaethol, Prif Gwnstabl Nick Ephgrave, Heddlu Surrey. Caiff hyn ei ddatblygu'n strategol gan ACC Drake drwy'r panel Amddiffyn Oedolion i Lywodraeth Cymru a thrwy DCC Kelly fel yr arweinydd dalfeydd rhanbarthol.

Er mwyn lleihau achosion o droseddoli 'plant mewn gofal', mae sawl awdurdod lleol wedi bod yn treialu cynlluniau o dan Adroddiad Laming, gyda phwyslais ar gyfiawnder adferol o'r cychwyn, yn hytrach nag arestio.

Mae'r tueddiad blynyddol yn dangos gostyngiad cyson yn nifer yr achosion o gadw pobl yn y ddalfa o dan A136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn y 12 mis diwethaf, gyda dim un ym mis Mawrth 2017 a dim ond un bob mis ym mis Ionawr a mis Chwefror, gyda chynnydd yn y nifer sy'n cael eu derbyn i ysbytai fel prif leoliad diogel. Mae'n dda gweld bod y data hefyd yn dangos gostyngiad yn nifer yr arestïadau 'Torri'r Heddwch' sy'n nodi na ddefnyddir y math hwn o arestïad fel dewis amgen.

Canmolodd yr arolygiad diweddar gan Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi waith yr Heddlu yn gostwng nifer yr achosion o gadw pobl yn y ddalfa o dan A136 a nododd fod beth rydym wedi'i gyflawni yn beth prin.

Mae gwaith craffu manwl ynghylch pobl a gedwir yn y ddalfa o dan A136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn parhau ac mae Rhyngylliaid Dalfeydd yn mynd ati i herio amgylchiadau'r arestïadau er mwyn sicrhau nad yw unigolion yn cael eu harestio am droseddau trefn gyhoeddus mân iawn nac am 'Dorri'r Heddwch' yn hytrach na chael cymorth ar gyfer salwch meddwl.

Mae prosiect y Samariaid bellach wedi'i ymestyn y tu hwnt i gyngor a chymorth dros y ffôn i gynnwys ymweliadau gorsaf ym Merthyr. Mae'r gwirfoddolwyr yn mynd i'r ddalfa ar nos Sul ac yn cael cyfle i ymgysylltu â phobl a gedwir yn y ddalfa, gan roi cyngor a chymorth ar yr adeg hanfodol honno a thu hwnt ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Cafwyd croeso mawr i'r gwasanaeth hwn ac mae wedi cael effaith gadarnhaol ar forâl a llesiant pobl a gedwir yn y ddalfa. Mae'r cynllun hwn wedi cael canmoliaeth a chydabyddiaeth genedlaethol ac mae wedi'i gynnwys mewn rhaglen ddogfen ar ITV yn dangos yr enghraifft hon o weithio mewn partneriaeth yn llwyddiannus yn Heddlu De Cymru. Mae mwy o waith yn cael ei wneud i ehangu'r gwasanaeth hwn i'r tair dalfa arall yn yr heddlu.

Mae cod newydd wedi'i gyflwyno er mwyn sicrhau y neilltuir aelod benywaidd o staff ar gyfer merched dan 18 a gedwir yn nalfa'r heddlu, i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion penodol.

Mae dolenni clyw wedi'u gosod yn y pedair dalfa ac mae trefn brofi wedi'i sefydlu gyda chymorth ein hymwelwyr annibynnol â'r ddalfa.

Amcan 5 - (Trais yn erbyn Menywod a Merched)

Gan weithio gyda'n partneriaid ein nod yw cynyddu nifer yr achosion o drais o unrhyw fath yn erbyn menywod a merched y rhoddir gwybod amdanynt, gan gynnwys cam-drin domestig, Trais ar Sail Anrhydedd ac Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod a byddwn yn cefnogi mentrau i'w nodi'n gynnar ac ymyrryd.

Diweddariad ar Gynnydd:

Mae 'Cynllun ar gyfer Mynd i'r Afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched' Heddlu De Cymru yn parhau i fod yn ffordd allweddol o gyfrannu at yr amcan cydraddoldeb hwn ac rydym yn gweld canlyniadau cadarnhaol. Un o amcanion allweddol Cynllun ar gyfer Mynd i'r Afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched 2014-17 oedd gwella hyder y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol wrth roi gwybod am ddigwyddiadau Cam-drin Domestig, ac rydym wedi cyflawni hyn. Mae ffigurau perfformiad yn dangos yn 2013-14 ein bod wedi cael 21,246 o ddigwyddiadau Cam-drin Domestig a'n bod wedi cael 34,133 yn 2016-17.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r cynnydd hwn yn rhannol oherwydd newid yn y dull o nodi achosion. Fodd bynnag, hyd yn oed os byddwn yn ystyried hyn, gellir priodoli'r cynnydd i'r broses o nodi ac ymyrryd yn gynnar a gynhaliwyd â phartneriaid fel yr amlinellwyd yn y cynllun.

Ar hyn o bryd, rydym yn adolygu ein cynnydd yn erbyn cynllun 2014-17 o fewn meysydd gwella prosesau nodi ac ymyrryd yn gynnar, gan sicrhau dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr ac yn annog atal ac mae nifer o gyflawniadau gwych y dylid eu cydnabod.

Cyflawnodd yr heddlu a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddau yr 'achrediad Rhuban Gwyn' cyntaf erioed, gan benodi pedwar Cennad a 26 o 'Hyrwyddwyr Rhuban Gwyn' sy'n helpu i ymgyrchu dros gael dynion i addo i beidio byth â chyflawni, caniatáu, nac aros yn dawel am drais gan ddynion yn erbyn menywod ar bob ffurf. Cynhelir digwyddiadau yn rheolaidd i gefnogi'r hyrwyddwyr hyn, yn cynnwys gweithgareddau fel 16 diwrnod o gynllunio, materion pobl hoyw, lesbiaid, deurywiol a thrawsrywiol, rheolaeth orfodol, stelcio ac aflonyddwch.

Mae tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau wedi bod yn datblygu'r prosiect Adnabod ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch (IRIS) yn nwy o ardaloedd yr Heddlu. Rhaglen hyfforddiant a chyfeirio cam-drin domestig a thrais rhywiol yw IRIS wedi'i lleoli mewn meddygfeydd meddyg teulu, yng Nghwm Taf, Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae'r rhaglen yn hyfforddi meddygon teulu a staff practisau ar nodi cam-drin domestig ac yn darparu eiriolwr i weithio â dioddefwyr a gaiff eu hatgyfeirio. Mae'r prosiect hwn yn annog partneriaethau llwyddiannus â byrddau iechyd prifysgolion er mwyn y sector iechyd i nodi achosion o nodi ac ymyrryd yn gynnar.

Cafwyd cyfanswm o 381 o atgyfeiriadau gan y meddygfeydd, gyda thua hanner y dioddefwyr yn trafod y ffaith eu bod yn cael eu cam-drin am y tro cyntaf. Mae hyn yn dangos effeithiolrwydd y rhaglen a'r ffyrdd y mae gan ddiodefwyr well siawns o gael eu cefnogi'n gynnar, gyda gweithwyr proffesiynol yn fwy hyderus i Ofyn a Gweithredu.

Rydym wedi datblygu Llwybr Gofal Dioddefwr, a fydd yn golygu y caiff pob dioddefwr cam-drin domestig Risg Safonol a Chanolig ei atgyfeirio at wasanaethau cymorth yn cynnwys llinell gymorth 'Byw Heb Ofn' Cymorth i Ferched Cymru. Caiff diodefwyr gynnig cymorth ynghyd â chael eu hatgyfeirio'n uniongyrchol â gwasanaethau cymorth lleol er mwyn gwella'r cyfleoedd ar gyfer ymyrryd yn gynnar.

Cafwyd cynnydd yn yr achosion o adrodd am droseddau diwylliannol flwyddyn ar ôl blwyddyn. Dylanwadwyd ar hyn gan y gofyniad gan yr Adran Iechyd i'w gwneud yn ofynnol i adrodd am achosion o Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, gyda chynnydd o 10 achos yn 2015-16 i 31 o achosion yn 2016-17. Roedd gweld cynnydd yn yr achosion o adrodd yn un o amcanion y Cynllun.

Rydym hefyd wedi datblygu ein hyfforddiant i swyddogion yr heddlu ym maes Trais yn erbyn Menywod a Merched. Mae pob Cwnstabl Heddlu a Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu newydd, yn ogystal â sawl swyddog ac aelod o staff presennol, yn cael hyfforddiant yn y maes hwn er mwyn deall y materion sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig. Rydym hefyd wedi cynnwys ymwybyddiaeth o gam-drin ar sail 'anrhydedd', priodas dan orfod ac anffurfio organau cenhedlu Menywod yn y rhaglen hyfforddi.

Er ein bod wedi gwneud cynnydd gwych yng Nghynllun Mynd i'r Afael â Thrais yn Erbyn Menywod a Merched 2014-17, cafwyd cyfle i ddysgu a myfyrio ar y ffordd gyda nifer o wersi i'w dysgu, er mwyn cynorthwyo wrth ddatblygu agenda 2018-2021.

Mae gwaith cadarnhaol eisoes yn mynd rhagddo, fel Proffil o Broblemau Cam-drin Domestig ym mhob rhan o'r heddlu. Prif nod y gwaith ymchwil yw adolygu graddau, cwmpas ac amrywiaeth achosion o Gam-drin Domestig yn ardal yr Heddlu; nodi ffactorau allanol posibl sy'n cyd-fynd â chynnydd yn yr achosion o adrodd; ac adolygiad o'r Adolygiadau Lladdiad Domestig diweddar.

Sefydlwyd arolygon Boddhad Dioddefwyr ym mis Ebrill 2017 i roi llais i fenywod a merched o ran sut rydym yn ymateb i drais ar sail rhyw. Roedd y canlyniadau'n galonogol gyda 92% o'r rhai y siaradwyd â hwy yn nodi y byddent yn cynghori ffrind i gysylltu â Heddlu De Cymru pe byddent yn wynebu Cam-drin Domestig. Wrth i'r arolwg ddatblygu, bydd lefel y data yn rhoi sail ar gyfer dysgu a gwella gwasanaethau.

Mae'r Heddlu yn rhan o drafodaethau cynnar gyda Phrifysgol Cymru, Caerdydd, er mwyn defnyddio cyfarpar fideo a wisgir ar y corff ac adborth o arolwg boddhad dioddefwyr er mwyn cynnal astudiaeth academiaidd o'r iaith a ddefnyddir gan swyddogion wrth ryngweithio â dioddefwyr cam-drin domestig. Byddai'r astudiaeth hon yn rhoi cyfle unigryw i ddeall pa fathau o ieithwedd a dulliau sydd orau ar gyfer ymgysylltu â dioddefwyr fel y gallwn ddatblygu ein dulliau gweithredu a rhoi hwb i hyder.

Datblygwyd y pecyn hyfforddiant pellach yn ddiweddar i swyddogion yr heddlu sy'n canolbwyntio ar bobl sy'n agored i niwed gyda mewnbwn penodol ar Gam-drin Domestig. Mae'r hyfforddiant hwn wedi bod yn eithriadol o ddefnyddiol wrth wella ymwybyddiaeth swyddogion o'r broses o nodi achosion o gamdriniaeth yn gynnar a'r ymyriadau y gellid eu gweithredu.

Mae adroddiad thematig Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi 'Byw mewn Ofn' ar Stelcio ac Aflonyddu yn canolbwyntio ar sut mae'r heddlu a Gwasanaeth Erllyn y goron yn mynd i'r afael â'r drosedd o stelcio ac aflonyddu. Ymysg y prif argymhellion ar gyfer heddluoedd mae: rhoi'r gorau i Hysbysiadau Gwybodaeth yr Heddlu ar unwaith; cynyddu ymwybyddiaeth swyddogion a'r defnydd priodol o bwerau mynediad a chwilio am achosion o stelcio, gweithio gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol i nodi pa raglenni sydd ar gael i reoli troseddwr a gaiff eu colfarnu o droseddau stelcio ac aflonyddu, a monitro a sicrhau cydymffurfiaeth â'r protocol stelcio. Rydym wrthi'n aros am gyngor gan Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ar roi'r gorau i Hysbysiadau Gwybodaeth yr Heddlu. Yn dilyn yr adroddiad hwn,

sefydlwyd gweithgor i ystyried yr argymhellion a sicrhau ein bod yn diogelu dioddefwyr stelcio ac aflonyddu domestig ac annomestig.

Ym mis Gorffennaf 2017, rhoddwyd £1.4 miliwn i'r Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau er mwyn helpu i atal a mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched yn dilyn cynnig i Gronfa Trawsnewid y Gwasanaeth. Mae'r cynnig amlasiantaeth yn dwyn ynghyd bartneriaid allweddol yn Cymorth i Ferched Cymru a'r Awdurdodau Lleol ac mae wedi cael ymateb da gan y Swyddfa Gartref. Nod y gronfa yw hyrwyddo prosiectau sy'n arwain y ffordd wrth atal trais cyn iddo ddigwydd, yn atal cam-drin rhag dod yn rhan o fywyd bob dydd, ac yn sefydlu'r ffyrdd gorau o helpu dioddefwyr a'u teuluoedd.

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau hefyd wedi bod yn llwyddiannus mewn cynnig partneriaeth gyda Heddlu Glannau'r Mersi mewn perthynas â Gwaith Rhyw. Nod y prosiect yw ymyrryd yn gynnar a rhoi cymorth drwy ddull gweithredu amlasiantaeth cynaliadwy gyda gwybodaeth leol a budd yn y gymuned, er mwyn gwir asesu anghenion dioddefwyr a gweithwyr rhyw. Bydd hefyd yn chwilio am ffyrdd o helpu gweithwyr rhyw i adael y diwydiant.

Rhoddodd Arolygiad Peel Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi 2016 sgôr 'Dda' i Heddlu De Cymru am ein heffeithiolrwydd yn cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddau. Maent wedi bod yn falch gyda'r gwelliannau a wnaed gennym yn diogelu pobl sy'n agored i niwed a sut rydym yn helpu dioddefwyr.

Mae Cynllun Trais yn erbyn Menywod a Merched ar gyfer 2018-2021 wrthi'n cael ei ddatblygu a bydd yn cynnwys ymwybyddiaeth ehangach o faterion Cam-drin Domestig wrth fod yn ymwybodol o'r llinyn sylfaenol o anghydraddoldeb rhwng y rhywiau.

Amcan 6 - Gweithlu Cynrychioliadol

Byddwn yn gweithio i gynyddu amrywiaeth gweithlu Heddlu De Cymru gan ganolbwynti'n benodol ar hil a rhyw er mwyn adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethir gennym yn well.

Mae rhaglen y Gweithlu Cynrychioliadol wedi dod yn rhan o weithrediadau bob dydd. Rydym wedi gweithio'n dda dros y 12 mis diwethaf i recriwtio a chadw ymgeiswyr o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i'r gwasanaeth.

Mae'r tîm, sy'n cynnwys tri swyddog, wedi gwneud gwaith ymgysylltu rheolaidd wedi'i dargedu er mwyn denu ymgeiswyr i'r gwasanaeth. Mae'r gwaith allgymorth hwn wedi'i gefnogi gan dimau plismona yn y gymdogaeth leol sy'n cynnal digwyddiadau allgymorth ac ymgysylltu pellach yn y gymuned pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. At ei gilydd, cafwyd 100 o gysylltiadau ymgysylltu ledled ardal yr heddlu dros y 12 mis diwethaf a arweiniodd at gyfeirio 600 o bobl at rolau amrywiol yn y sefydliad.

Mae gan y cynllun Hyrwyddwyr Datblygu, sy'n weithredol ar hyn o bryd, 170 o hyrwyddwyr datblygu gweithredol sy'n rhoi o'u hamser i fentora a chefnogi unigolion sydd am ymuno â'r gwasanaeth. Mae hyrwyddwyr datblygu yn cynnig cymorth unigol ac yn rhoi mynediad i wybodaeth recriwtio.

Er mwyn Cadw a Datblygu staff o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn y sefydliad, cyflwynwyd portffolio datblygu sy'n sicrhau system fwy ffurfiol o gofnodi datblygiad staff. Mae'r cynllun yn galluogi staff i gael: mynediad i gyrsiau hyfforddiant mewnol a ddarperir gan Wasanaethau Dysgu a Datblygu, mynediad i gyrsiau hyfforddiant allanol a ddarperir gan y Sefydliad Rheolaeth Siartredig a mynediad ffurfiol i brosesau mentora a hyfforddi. Mae 2 aelod o'r tîm hefyd wedi cael eu cymhwyso'n allanol fel hyfforddwyr Lefel 3 er mwyn helpu unigolion sy'n ceisio dyrchafiad yn y gwasanaeth.

Hyd yma, yn sgil y rhaglen recriwtio, mae 33 o unigolion o gefndir lleiafrifoedd ethnig wedi dechrau gweithio yn y gwasanaeth. Mae hyn yn cymharu â 7 o edrych ar y cyfnod o 18 mis cyn y rhaglen Gweithlu Cynrychioliadol sy'n cyfateb i gynnydd pedwarplyg yn nifer y staff o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a gwyn arall sydd wedi dechrau gweithio gyda Heddlu De Cymru.

Yn sgil ein proses ceisiadau ddiweddaraf ar gyfer swyddi Cwnstabiliaid yr Heddlu, cyflwynodd cyfanswm o 28 o unigolion o gefndir pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ffurflenni cais a 4 unigolyn o gefndir gwyn arall. Roedd hyn yn cyfateb i 16.8% o ymgeiswyr o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn rhan o'r broses a 2.4% o gefndir gwyn arall. Roedd 19.2% o'r holl ymgeiswyr naill ai o gefndir pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig neu wyn arall.

O'r holl gwnstabiliaid sydd wedi ymuno ers sefydlu'r prosiect, mae 7% o'r rhain wedi dod o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig sydd uwchlaw data'r cyfrifiad ar gyfer yr ardal.

Denodd ein hysbyseb ddiweddaraf ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu 33 o geisiadau ar gyfer y gwasanaeth gan unigolion o gefndir pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a oedd yn cyfateb i 5.5% o gyfanswm y ceisiadau. Roedd 2.2% o'r ymgeiswyr o gefndir gwyn arall.

Yn ystod haf 2016, roedd yn bleser gennym lansio 'Cynllun Heddlu De Cymru ar gyfer Recriwtio, Datblygu a Chadw Menywod' yn dilyn ein hadolygiad helaeth i'r rhwystrau sy'n atal menywod rhag datblygu. Mae'r Cynllun yn amlinellu'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd dros y pum mlynedd nesaf er mwyn blaenoriaethu'r angen i annog mwy o fenywod i ymuno â ni a datblygu drwy ein strwythur rheng a gradd.

Ers lansio'r Cynllun, rydym wedi bod yn gweithio i adolygu ein Polisi Gweithio Hyblyg er mwyn sicrhau ei fod yn fwy cyson a hygyrch i bawb. Rydym hefyd wedi bod yn datblygu 'Llawlyfr Beichiogrwydd a Mamolaeth' i'r holl swyddogion ac aelodau o staff beichiog er mwyn rhoi gwybodaeth gyson a chefnogol iddynt yn ystod eu beichiogrwydd a'u cyfnod mamolaeth. Rydym hefyd wedi bod yn adolygu ein cynllun Hyrwyddwyr Beichiogrwydd a byddwn yn ei ail-lansio yn ystod hydref 2017 gyda ffocws newydd ar roi cymorth i fenywod a theuluoedd ar bob cam o'u beichiogrwydd a'u cyfnod mamolaeth. Er mwyn dangos ein hymrwymiad i hyn, gwnaethom hefyd lofnodi addewid 'Working Forward' y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ym mis Ebrill 2017. Mae hyn yn amlinellu'r camau y byddwn yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r gweithlu gorau posibl ar gyfer mamau newydd a mamau beichiog.

Rydym hefyd wedi gweithio i wella dealltwriaeth o'r menopos yn Heddlu De Cymru yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi cynnwys cofnodi absenoldeb oherwydd salwch sy'n gysylltiedig â'r menopos er mwyn annog pobl i deimlo y gallant drafod symptomau'r menopos. Rydym hefyd wedi comisiynu hyfforddiant ar y menopos er mwyn sicrhau y gall ein rheolwyr a'n goruchwylwyr helpu menywod drwy'r broses. Yn ystod y flwyddyn i ddod, rydym yn bwriadu sefydlu Hyrwyddwyr Menopos er mwyn cyflwyno cymorth drwy'r holl sefydliad.

Gobeithio y bydd y gwaith ar y cyd sy'n rhan o'r broses o roi'r Cynllun ar waith yn arwain at ganrannau uwch o fenywod yn yr heddlu a chynrychiolaeth well ar y rhengoedd canol ac uwch.

Mae cynlluniau ar waith yn barhaus er mwyn ystyried sut y gellir annog pobl â nodweddion gwarchoddedig eraill i ymuno â ni a chaiff y gynrychiolaeth gyffredinol ei monitro gan ein Bwrdd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol, gyda chymorth cadarnhaol gan ein rhwydweithiau staff.

Data Cydraddoldeb

Defnyddir data cydraddoldeb i lywio blaenoriaethau ar gyfer Heddlu De Cymru a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru.

Mae'r wybodaeth ar y tudalennau canlynol yn cynnwys data a gyflwynir mewn blynyddoedd ariannol llawn lle y bo'n bosibl. Cafodd y wybodaeth ei diweddarau ym mis Mehefin 2017 er mwyn cynnwys blwyddyn lawn o ddata o'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017.

1. Dengys llawer o dablau ddata yn ôl Unedau Rheoli Sylfaenol. Mae Heddlu De Cymru wedi'i rannu'n bedair Ardal neu Uned Reoli Sylfaenol. Mae'r rhain yn ffiniau daearyddol y rhennir dyletswyddau plismona gweithredol yn unol â hwy. Y pedair ardal yw:
 - Yr Uned Reoli Sylfaenol Ganolog (Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg)
 - Yr Uned Reoli Sylfaenol Ddwyreiniol (Caerdydd)
 - Yr Uned Reoli Sylfaenol Ogleddol (Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful)
 - Yr Uned Reoli Sylfaenol Orllewinol (Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe)
2. Mae gwybodaeth am y gweithlu fel yr oedd ar 31 Mawrth 2016. Dangosir y wybodaeth hon ar gyfer pedwar grŵp o staff, sef
 - Swyddogion yr Heddlu
 - Staff yr Heddlu (cyflogeion nad ydynt yn swyddogion yr heddlu nac yn swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu)
 - Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs)
 - Cwnstabiliaid Cynorthwyol (aelodau o'r cyhoedd sy'n wirfoddolwyr sy'n gwisgo lifrai ac yn arfer pwerau llawn yr heddlu pan fyddant ar ddyletswydd).
